

Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg 2020-2021



Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) ydy llais annibynnol pobl yng Nghymru sydd yn defnyddio gwasanaethau GIG. Rydym yn cynnwys gwirfoddolwyr lleol sydd yn gweithredu fel llygaid a chlustiau cleifion a'r cyhoedd. Mae 7 CICau yng ngwahanol rannau o Gymru.

Mae Bwrdd CICau [y Bwrdd] yn bodoli i gefnogi, cynorthwyo, cynghori a rheoli perfformiad CICau. Mae'n cynrychioli llais cyfunol CICau ar draws Cymru.

Mae copi electronig o'r ddogfen yma ar gael ar ein gwefan:
www.boardchc.wales

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd. Os hoffech y cyhoeddiad yma mewn fformat ac/neu iaith amgen, cysylltwch gyda ni os gwelwch yn dda:

33-35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HB

Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol
2. Cyflwyniad
3. Ciplwg ar ein blwyddyn
4. Beth rydym wedi bod yn ei wneud
5. Sut rydym wedi diwallu safonau'r iaith Gymraeg yn ystod 2020-2021
6. Edrych ymlaen
7. Atodiadau

Crynodeb Gweithredol

Mae ein mudiad CIC eisiau i'r Gymraeg fod yn rhan hanfodol o'n gwaith o ddydd i ddydd. Dyma mae pobl Cymru eisiau er mwyn iddyn nhw allu cyfathrebu mewn ffyrdd sydd yn gyfforddus ac yn naturiol iddyn nhw.

Nid cynhyrchu gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg yn unig ydy hyn, ond sicrhau bod pobl yn gallu ymgysylltu gyda ni yn Gymraeg fel ag y maen nhw'n gallu yn Saesneg – lle bynnag maen nhw eisiau gwneud hynny.

Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu cefnogi'r Gymraeg a hefyd diwylliant a hunaniaeth Cymru hefyd.

Yn yr ail flwyddyn o weithio oddi mewn i fframwaith safonau'r iaith Gymraeg fe wnaethom wynebu heriau ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen. Roedd y pandemig coronafeirws yn golygu bod cyfyngiadau'r cyfnod clo wedi cyfyngu ar yr hyn roeddem oll yn gallu ei wneud.

Bu'n rhaid i'n staff ac aelodau weithio o gartref, cadw i ffwrdd oddi wrth eraill, gwisgo mygydau, cadw pellter cymdeithasol a chyfyngu ar eu teithio.

Roedd hyn yn golygu ein bod wedi gorfod newid ein dull o weithio bron dros nos. Bu'n rhaid inni weithredu yn gyflym i'r ffordd roedd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r argyfwng.

Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd y nifer o newidiadau a ddigwyddodd mor gyflym wedi ei gwneud yn fwy anodd inni sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaeth llawn yn Gymraeg drwy'r amser.

Felly fe wnaethom feddwl am y Gymraeg wrth inni newid ein ffordd o wneud pethau. Fe wnaethom fanteisio ar bob cyfle y gallem i ddeall effaith unrhyw newidiadau ar y Gymraeg i wella sut roeddem yn gweithio'n ddwyieithog yn ein mudiad CIC.

Fe wnaethom adeiladu ar y cynnydd a wnaethom y llynedd mewn rhai meysydd allweddol. Penodwyd trafodydd galwadau ffôn a chyfieithydd Cymraeg i gefnogi ein mudiad CIC cyfan.

Bu hyn yn gymorth inni gefnogi ac ymestyn ein defnydd o'r Gymraeg yn fewnol, a hefyd ar draws ein holl weithgareddau cyhoeddus.

Caswm drafferth i wneud y cynnydd roeddem yn dymuno ei wneud mewn rhai meysydd. Roedd cyfyngiadau COVID-19 yn golygu nad oeddem wedi gallu gosod ein system teleffoni integredig newydd ar draws holl swyddfeydd y Bwrdd a CICau ar draws Cymru yn ystod y flwyddyn.

Mae hyn yn parhau i effeithio ar ein gallu i ddarparu gwasanaeth ffôn cyflawn Cymraeg, yn enwedig pan fydd pobl yn siarad gyda ni am y tro cyntaf ar y ffôn. Fe fyddwn yn gwneud hyn yn 2021-2022.

Yn y flwyddyn i ddod, fe fyddwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaethom yn y 2 flynedd ddiwethaf. Fe fyddwn yn gwneud hyn drwy gefnogi staff ac aelodau i barhau i:

- Meddwl am y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau
- Adeiladu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Cyflwyniad

Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol sydd yn rhoi dyletswydd ar y Bwrdd a'r 7 CICau ar draws Cymru i gydymffurfio gyda'r safonau yn berthynol i'r iaith Gymraeg.

Daeth Safonau'r Iaith Gymraeg ["y safonau"] i rym ar gyfer y Bwrdd a'r 7 CICau ar 30 Mai 2019.

Fel 8 corff statudol ar wahân, mae'r Bwrdd a phob CIC yng Nghymru wedi derbyn hysbysiad ar wahân o'r Safonau sydd yn berthnasol iddyn nhw, wedi'u pennu gan y Comisiynydd Iaith ac yn seiliedig ar eu hamgylchiadau neilltuol.

Mae'r ddolen isod yn rhoi manylion am y safonau sydd yn berthnasol i Fwrdd CICau yng Nghymru

<https://boardchc.nhs.wales/what-we-do/how-we-work/governance-documents/welsh-language-compliance-notice-july-2020-english/>.

Dyma ein hail adroddiad blynyddol ar gydymffurfiaeth gyda'r safonau. Mae'n cynnwys y cyfnod o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021.

Alyson Thomas, ein Prif Weithredwraig sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y Gymraeg ym Mwrdd CICau. Mae'n gyfrifol am sicrhau gweithrediad y safonau o ddydd i ddydd.

Mae ein Bwrdd wedi adolygu a chymeradwyo'r adroddiad hwn.

Ciplowg ar ein blwyddyn

Penodwyd
trafodydd
galwadau a
chyfieithydd
Cymraeg ar
gyfer y mudiad
CIC

Datblygwyd
gwefan
ddwyieithog,
mwy hygyrch

Parhawyd i
ddatblygu ein
gwasanaeth
Cymraeg tra'n
newid y ffordd
roeddem yn
gweithio

Ymunwyd gyda'r
rhaglen 'Arwain
mewn Gwlad
Ddwyieithog' i'n
helpu i ddysgu
rhagor am sut y
gallwn ddod yn
gorff cwbl

Beth rydym wedi bod yn ei wneud

Yn 2020-2021, newidiodd bywyd fel yr oeddem yn ei adnabod yn llwyr yng Nghymru. Roedd y pandemig coronafeirws yn golygu bod cyfyngiadau'r cyfnod clo yn cyfyngu ar yr hyn roeddem oll yn gallu ei wneud.

Bu'n rhaid i'n staff ac aelodau weithio o gartref, cadw i ffwrdd oddi wrth eraill, gwisgo mygydau, cadw pellter cymdeithasol a chyfyngu ar eu teithio. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi gorfod newid ein dull o weithio bron dros nos. Bu'n rhaid inni weithredu yn gyflym i'r ffordd roedd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r argyfwng.

Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd y nifer o newidiadau a ddigwyddodd mor gyflym wedi ei gwneud yn fwy anodd inni sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaeth llawn yn Gymraeg drwy'r amser. Felly fe wnaethom feddwl am y Gymraeg wrth inni newid ein ffordd o wneud pethau. Fe wnaethom fanteisio ar bob cyfle y gallem i ddeall effaith unrhyw newidiadau ar y Gymraeg i wella sut roeddem yn gweithio'n ddwyieithog yn ein mudiad CIC.

Defnyddio'r fframwaith a ddarparwyd gan safonau'r iaith Gymraeg i wella sut rydym yn gweithio yn ddwyieithog

- Fe wnaethom edrych ar yr amrediad o gyngor, canllaw ac arfer da a rannwyd gan swyddfa'r Comisiynydd Iaith. Fe wnaethom newid ein ffyrdd o weithio mewn ymateb.
- Fe wnaethom fynychu gweminar ar y safonau llunio polisi. A rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws y mudiad CIC cyfan.

- Roeddem yn gwella o ran adnabod a deall effaith y ffordd rydym yn gweithio ar y Gymraeg. O ganlyniad, fe wnaethom newidiadau i'n ffordd o weithio.

Gwnaethom hyn drwy 'ddull asesiad effaith' er mwyn manteisio ar bob cyfle i wella gallu pobl i ymgysylltu gyda ni yn Gymraeg.

- Fe wnaethom ddatblygu gwefan ddwyieithog newydd i'r Bwrdd. Fe wnaethom gydlynu a chefnogi'r holl CICau i ddylunio a datblygu'r wybodaeth sydd ar gael ar eu gwefannau yn ddwyieithog.
- Daethom yn well am wneud ein gwybodaeth yn fwy hygyrch drwy gynhyrchu rhagor o ddogfennau Cymraeg mewn fformat 'Hawdd ei Ddeall'.
- Daethom yn well am gynnig cyfarfodydd yn Gymraeg. Datblygwyd sut roeddem yn cynnal ein cyfarfodydd yn 'rhithiol' mewn dull sydd yn helpu i sicrhau ein bod yn gallu cefnogi trafodaethau dwyieithog.

Cyngori a chefnogi CICau ar draws Cymru i ddiwallu safonau'r iaith Gymraeg sydd yn berthnasol iddyn nhw

- Fe wnaethom edrych eto ar ein holl ddogfennau sydd yn nodi sut y dylem gyflawni ein gweithgareddau (ein safonau, polisïau, gweithdrefnau a chanllaw i staff ac aelodau). Fe wnaethom newidiadau oedd yn gymorth i ddatblygu ymhellach ac ymestyn ein defnydd o'r Gymraeg yn ein gweithgareddau o ddydd i ddydd.
- Fe wnaethom recriwtio trafodydd galwadau ffôn a chyfieithydd Cymraeg a chyflwyno gwasanaeth cyfieithu Cymraeg mewnol newydd.

- Fe wnaethom brynu system ffôn integredig Cymru gyfan. Oherwydd y pandemig bu oedi mewn gosod y system newydd. Yn ail hanner 2021-2022 fe fyddwn yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog llawn ar draws ein mudiad CIC cyfan.
- Fe wnaethom ddefnyddio ein cyfarfodydd rheolaidd yn y Bwrdd a gyda CICau i siarad am sut roeddem yn llwyddo gyda datblygu ein defnydd o'r Gymraeg. Bu hyn yn gymorth inni roi cyngor a chefnogaeth i'n gilydd, trafod syniadau a dysgu a rhannu adnoddau ac arfer da.
- Fe wnaethom barhau i ddefnyddio ein dull o hunanasesu a monitro i ddeall pa mor llwyddiannus roeddem ni a CICau yng Ngymru o ran ateb y Safonau Iaith Gymraeg oedd yn berthnasol inni. Roedd hyn yn ein cynorthwyo i ddeall beth yn rhagor sydd angen inni ei wneud.

Parhau i adeiladu ar sgiliau a hyder ein staff ac aelodau gwirfoddol i gefnogi amgylchedd lle gall y Gymraeg ddatblygu a ffynnu

- Fe wnaethom ofyn i staff ac aelodau yn ein mudiad CIC beth oedd eu dewis iaith pan yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a datblygu. Fe wnaethom sicrhau bod cyrsiau hyfforddi CIC ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Fe wnaethom ddarparu cyfleoedd i staff ac aelodau ar draws ein mudiad CIC i dderbyn gwersi Cymraeg sylfaenol
- Fe wnaethom roi cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg dderbyn hyfforddiant pellach i ddatblygu eu sgiliau iaith

- Fe wnaethom adolygu sgiliau Cymraeg aelodau a staff y Bwrdd
- Fe wnaethom ehangu ein dull o ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol gan gynhyrchu mwy a mwy o wybodaeth mewnol yn ddwyieithog
- Fe wnaethom ymuno gyda'r rhaglen 'Arwain mewn gwlad ddwyieithog', yn cynnwys ein Prif Weithredwraig a 2 Brif Swyddog
- Fe wnaethom weithredu i sicrhau bod gweithgaredd recriwtio ar draws ein mudiad CIC yn anelu at gynyddu sgiliau Cymraeg ein staff drwy hysbysu rhagor o rolau fel rhai lle mae'r 'Gymraeg yn hanfodol'
- Fe wnaethom fanteisio ar y cyfle i gynnwys staff y Bwrdd mewn dysgu rhagor am y Gymraeg mewn dull hwyliog drwy ein cyfarfodydd tîm anffurfiol e.e. cwis timau etc

Cynhaliodd swyddfa'r Bwrdd 2 hunanasesiad safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn i weld os oedd y pethau roeddem ni wedi eu gwneud yn gweithio. Dangosodd y rhain bod llawer o'r pethau roeddem wedi eu gwneud yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Fe wnaethon nhw hefyd ddangos bod y newid sydyn yn y ffordd roeddem yn gorfod gweithio mewn ymateb i'r pandemig coronafeirws wedi golygu na allem yn gynnar yn y flwyddyn fod mor hyderus ein bod yn cael pethau'n gywir y tro cyntaf bob tro.

Dangosodd ein hail hunanasesiad bod y gwaith a wnaethom ar ôl yr asesiad cyntaf yn gweithio. Roeddem yn fwy hyderus o ddiwallu ein cyfrifoldebau yn gyson.

Fe fyddwn yn parhau i wneud rhagor wrth inni baratoi ar gyfer cyflwyno Corff Llais y Dinesydd newydd yn 2023 i greu amgylchedd waith lle mae gweithio'n ddwyieithog yn rhan naturiol o'r modd rydym yn cyflawni ein holl weithgaredd y tu hwnt i'r rhai cyhoeddus.

Trafod cwynion am yr iaith Gymraeg

Mae ein gweithdrefn 'gwneud cwynion amdanom' yn nodi'r broses ar gyfer delio gyda chwynion am gydymffurfiaeth gyda safonau'r iaith Gymraeg. Gallwch ddarganfod rhagor drwy ddilyn y ddolen ganlynol

[Rhannwch eich adborth amdanom – Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru \(nhs.wales\)](#)

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 ni dderbyniwyd yr un gwyn yn berthynol i'r iaith Gymraeg.

Sut rydym wedi diwallu safonau'r iaith Gymraeg yn 2020-2021

Cynahliwyd 2 hunanasesiad o gydymffurfiaeth y Bwrdd gyda'r safonau yn ystod y flwyddyn. Mae canfyddiadau manwl ein hasesiad diweddaraf yn gynwysiedig yn Atodiad 1. Dangosir crynodeb o'r asesiad yma yn y paragraffau canlynol.

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Mae'r safonau yma yn canolbwyntio ar gyflenwi gwasanaethau. Eu nod ydy hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg neu i

sicrhau nad ydy'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflenwi gwasanaethau.

Maen nhw'n cynnwys y gwasanaethau Cymraeg a ddarparwn i'r cyhoedd e,e, gwasanaethau ar y ffôn, defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, llythyrau a dogfennau, gwasanaethau ar-lein.

Cyflenwi gwasanaethau	Cydymffurfiaeth	Gweithio tuag at	Diffyg cydymffurfiaeth	Dim yn berthnasol
Nifer y safonau				
53	36	6	0	11

Drwy ein hunanasesiad roeddem yn gallu dangos ein bod yn gwneud yr hyn roedd angen inni ei wneud i ddiwallu mwyafrif y safonau sydd yn berthnasol inni hyd yn oed gyda'r heriau o fyw gyda COVID-19.

I'r safonau a nodwyd fel 'gweithio tuag atynt':

- Yn ystod y flwyddyn nodwyd nad oedd ein holl ddogfennau fersiwn Saesneg, hysbysiadau, arolygon ac adroddiadau yn gwahodd pobl i gyfathrebu gyda ni yn ddigon clir ynghylch y Gymraeg. Doedden nhw ddim bob amser yn datgan, lle roedden ni yn rhoi ein manylion cyswllt, ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.

Felly rydym wedi bod yn gweithio i gywiro hyn. Fe wnaethom adolygu a sicrhau bod yr wybodaeth yma yn gliriach yn 'nhempledi' ein holl ddogfennau safonol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i staff sicrhau bod pobl yn cael eu hannog i ohebu gyda ni yn Gymraeg os mai dyna ydy eu dewis.

- Pan ddechreuodd ein staff weithio o gartref oherwydd y pandemig coronafeirws, roedd angen inni newid ein cyswllt ffôn a threfniadau cyfarfodydd. Roedd rhagor o'n staff mewn cysylltiad gyda phobl am y tro cyntaf ar y ffôn. Cynhaliwyd ein holl gyfarfodydd yn rhithiol.

Mewn trafodaethau gyda'n staff, fe wnaethom benderfynu na allem fod yn hyderus ym misoedd cyntaf y cyfnod clo bod pawb yn diwallu ein gofynion iaith Gymraeg yn llawn yn y meysydd yma.

Wrth i bawb gyfarwyddo gyda'n dulliau newydd o weithio rydym wedi gwella ein cydymffurfiaeth a dangosodd ein hunanasesiad olaf yn ystod y flwyddyn bod gan ein tîm bellach fwy o ddealltwriaeth o beth i'w wneud ym mhob amgylchiadau.

Er enghraifft, rydym wedi cyflwyno geiriad safonol i'w ddefnyddio mewn gwahoddiadau rhith-gyfarfodydd. Felly rydym bob amser yn gwahodd pobl i roi gwybod inni os ydyn nhw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg pan yn cyfarfod gyda ni.

- Cynhyrchwyd rhai o'n taflenni cyhoeddusrwydd cyn i'r safonau ddod i rym. Dydy pob un ddim yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol am ddarparu ein gwasanaethau yn Gymraeg (er bod pob un wedi eu cynhyrchu yn ddwyieithog).

Yn ôl y cyngor gan swyddfa'r Comisiynydd Iaith, fe fyddwn yn parhau i ddefnyddio'r taflenni yma. Fe fydd rhai newydd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol am ein gwasanaethau a chyfathrebu gyda ni yn Gymraeg.

Safonau llunio polisi

Mae'r safonau llunio polisi yn ei gwneud yn ofynnol inni ystyried yr effaith y gall ein penderfyniadau polisi ei gael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r egwyddor i beidio â defnyddio'r Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r safonau yn ei gwneud yn ofynnol inni wneud y 3 peth canlynol:

1. ystyried effeithiau ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg (cadarnhaol a negyddol);
2. ystyried sut i gynyddu effeithiau cadarnhaol, lliniaru neu leihau effeithiau niweidiol a manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
3. gofyn am farn am yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori a gofyn am farn siaradwyr Cymraeg a defnyddwyr yr iaith.

Lluni o polisi	Cydymffurfiaeth	Gweit hio tuag at	Diffyg cydymffurfiaeth	Dim yn berthna sol
9	9	0	0	0

Dangosodd ein hunanasesiad diweddaraf inni bod y ffordd roeddem yn gwneud pethau yn diwallu'r safonau. Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth hyn wella.

Yn dilyn presenoldeb cynrychiolydd CIC yng 'ngweminar' y Comisiynydd Iaith ar y safonau llunio polisi, fe wnaethom adolygu a chryfhau ymhellach ein fframwaith asesu effaith yt iaith Gymraeg.

Mae hyn wedi ein helpu i nodi, ystyried ac arddangos effaith ein penderfyniadau ar y Gymraeg.

Safonau gweithredu

Mae'r safonau yma yn delio gyda'r ffordd mae'r Bwrdd a CICau yn hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gan weithio tuag at weithle dwyieithog.

Safonau gweithredu	Cydymffurfiaeth	Gweithio tuag at	Diffyg cydymffurfiaeth	Dim yn berthnasol
Nifer safonau				
16	16	0	0	0

Dangosodd ein hunanasesiad bod y ffordd roeddem yn gwneud pethau yn golygu ein bod yn diwallu'r safonau gweithredu.

Rydym yn neilltuol wedi adolygu ac ymestyn y ffordd mae'r Bwrdd a CICau yn hyrwyddo ac yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno dogfennau templed dwyieithog at ddefnydd yr holl staff, cyfieithu rheolaidd o amrediad ehangach o ddogfennau canllaw, briffiadau cyfarfodydd ac arolygon staff ac aelodau.

Rydym hefyd wedi sicrhau bod yr holl arwyddion newydd yn swyddfa'r Bwrdd am COVID-19 yn ddwyieithog. Mae'r fersiynau Cymraeg weid'u rhoi mewn lleoliad sydd yn golygu eu bod yn debygol o gael eu darllen gyntaf.

Safonau cadw cofnodion

Mae'r safon yma yn cynnwys cadw cofnod o'r nifer o gwynion a dderbyniwyd yn berthynol i'n cydymffurfiaeth gyda'r safonau.

Cadw cofnodion	Cydymffurfiaeth	Gweithio tuag at	Diffyg cydymffurfiaeth	Dim yn berthnasol
Nifer safonau				
1	1	0	0	0

Fe wnaethomn adrodd yr holl gwynion a dderbyniodd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn i Bwyllgor Llywodraethiant Corfforaethol y Bwrdd. Mae hwn yn dangos na dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn am ein cydymffurfiaeth gyda Safonau; r Iaith Gymraeg.

Sgiliau Cymraeg

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad yma, drwy gydol y flwyddyn rydym wedi parhau i annog ein staff ac aelodau'r Bwrdd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg mewn ffyrdd gwahanol. Fe wnaethom hefyd gefnogi CICau i wneud yr un fath i'w staff a'u haelodau.

Yn ystod y flwyddyn ymunodd 2 siaradwr Cymraeg gyda ni i weithio yn swyddfa'r Bwrdd (mae 1 wedi gadael yn y cyfamser i gymryd swydd barhaol mewn corff arall). Ym mis Ionawr 2021 fe wnaethom benodi ein trafodydd galwadau ffôn a chyfieithydd Cymraeg cyntaf.

Mae'r 2 aelod annibynnol ar ein Bwrdd yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

Fe wnaethom ofyn i'n staff yn y Bwrdd hunanasesu eu sgiliau Cymraeg gan ddefnyddio'r fframwaith yn Atodiad 2. Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau:

MATRICES CYMWYSEDDAU HUNANASESU'R GYMRAEG							
Niferoedd a lefelau staff sydd yn siarad Cymraeg sydd yn gweithio yn swyddfa'r Bwrdd							
Band cyflog	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
Prif Weithredwraig	1	-	-	-	-	-	1
8b		1	-	-	-	-	1
7	1	-	-	1	-	-	2
6	2	-	-	-	-	-	2
5	1	-	-	-	-	1	2 ¹
4	2	-	-	-	-	1	3 ²

Staff sydd yn mynychu cyrsiau Cymraeg

Yn ystod y flwyddyn mynychodd ein Prif Weithredwraig weithdy 'Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog'. Bwriad hwn oedd helpu uwch arweinwyr i ddod yn lysgenhadon ar gyfer diwylliant arweinyddiaeth sefydliadol lle gall y Gymraeg ffynnu.

Yn dilyn hyn, noddodd y Prif Weithredwraig 2 aelod o Dîm Uwch Reolwyr y Bwrdd i gymryd rhan mewn rhaglen fodwlaidd i arweinydd a gynhelir yn ystod 2020-2021.

Er nad ydy mwyafrif y staff sydd yn gweithio yn swyddfa'r Bwrdd wedi bod ar unrhyw gyrsiau Cymraeg ffurfiol yn 2020-2021, mae nhw wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau tîm anffurfiol Cymraeg yn ystod y flwyddyn.

¹ Er bod 2 aelod o staff yn gweithio ar y lefel yma, mae un yn llenwi swydd aelod parhaol o'r staff aeth ar famolaeth yn ystod y flwyddyn.

² Does ond un swydd ar Fand 4. Mae staff yn gwneud y rôl ar sail rhannu swydd a bu newid staff yn ystod y flwyddyn

Recruiwio staff

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn oedd yn gofyn:

- sgiliau Cymraeg yn hanfodol
- angen dysgu sgiliau Cymraeg ar benodiad
- sgiliau Cymraeg yn ddymunol
- dim angen sgiliau Cymraeg

Categori	Hysbysu'n fewnol	Hysbysu'n allanol
Hanfodol	-	1
Dysgu ar benodiad	-	-
Dymunol	1	1
Dim angen	-	-
Cyfanswm	1	2

Edrych ymlaen

Gwyddom y byddwn oll yn byw gyda COVID-19 am gryn amser eto. Gwyddom hefyd y byddwn yn parhau i wneud rhai o'r newidiadau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fe fyddwn yn gwneud hyn ochr yn ochr gyda ailgyflwyno gweithgareddau wyneb yn wyneb cyn gynted ag y gallwn.

Gwyddom bod hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i bobl sydd yn gweithio inni a gyda ni. Mae'n rhoi rhagor o hyblgrwydd i bobl sydd eisiau ymgysylltu gyda ni. Mae'n helpu ein mudiad CIC i barhau i chwarae ei rôl bwysig wrth i'r GIG ymateb i'r heriau y mae'n eu wynebu.

Wrth inni barhau i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio, fe fyddwn yn meddwl am gyfleoedd i ymestyn a gwella ein

defnydd o'r Gymraeg ymhellach. Mae rhai o'r pethau y byddwn yn eu gwneud yn 2021-2022 yn cynnwys:

- gosod system ffôn integredig sydd yn cysyllt swyddfa'r Bwrdd a holl swyddfeydd CICau. Mae hyn yn golygu y gallwn ddarparu gwasanaeth ffôn Cymraeg 'pwynt cyswllt cyntaf' yn gyson yn swyddfa'r Bwrdd a swyddfeydd CICau ar draws Cymru
- adolygu ein polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn parhau i adeiladu amgylchedd sydd yn annog ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg lle bynnag mae'n bosibl
- creu rhith-rwydwaith Cymraeg lle gall staff ac aelodau CIC annog a chefnogi ei gilydd
- gweithio gyda'n corff cynnal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i ehangu ac ymestyn cyfleoedd hyfforddi yn Gymraeg i staff
- parhau i ymestyn amrediad ein dogfennau mewnol yn ddwyieithog
- lansio a pharhau i ddatblygu'r ffordd rydym yn darparu hygyrchedd gwybodaeth ddwyieithog drwy ein gwefan
- pargau i ymestyn ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol
- manteisio ar bob cyfle i ehangu sgiliau Cymraeg a'r defnydd o Gymraeg gan staff ac aelodau ar draws ein mudiad CIC cyfan.

Fe fyddwn hefyd yn defnyddio ein rhaglen hunanasesu i feddwl am yr hyn a wnaethom sydd wedi gweithio'n dda o ran

cynyddu ein defnydd o'r Gymraeg, a beth a wnaethom na weithiodd cystal.

Fe fyddwn yn dysgu o hyn drwy newid yr hyn a wnawn lle mae angen inni wneud hynny. Fe fyddwn yn parhau i ddysgu oddi wrth eraill.

Yn olaf, fe fyddwn yn defnyddio ein profiad yn y mudiad CIC i lywio a dylanwadu ar ddyluniad a datblygiad y Corff Llais y Dinesydd newydd a fydd yn disodli ein mudiad CIC yn 2023.

Mae creu'r corff newydd yma yn gyfle gwirioneddol i Lywodraeth Cymru sefydlu corff dwyieithog llawn mewn ffordd sydd yn ateb orau anghenion pawb sydd yn byw yng Nghymru.

Atodiad 1

GWYRDD – Mae gennym drefniadau clir ac mae'r rhain yn gweithio yn gyson dda			
OREN – Mae gennym drefniadau clir ond dydy'r rhain ddim eto'n gweithio'n gyson dda. Mae angen inni wneud rhagor i sicrhau cydymffurfiaeth			
COCH – Does gennym ni ddim trefniadau clir, neu dydy'r trefniadau sydd gennym ddim yn gweithio. Mae angen inni wneud rhagor i sicrhau cydymffurfiaeth ac efallai y byddwn angen help i wneud hyn.			
1	Cyflenwi gwasanaet hau	<p>Os ydych yn derbyn gohebiaeth gan berson yn Gymraeg rhaid I chi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb) oni bai bod y person wedi nodi nad oes angen ateb yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid I chi gydymffurfio gyda safon ym mhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <p>Pan rydych yn derbyn gohebiaeth gan berson sydd yn gweithredu mewn capasiti o gynrychioli: Cyngor Iechyd Cymuned neu</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Bwrdd Iechyd Addysgu Powys sydd yn eich cyd-gynnal 	<p>Dydym ni ddim wedi derbyn unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg sydd angen ymateb yn ystod 2020-2021 hyd yn hyn.</p> <p>Ond fe fyddwn yn ateb yn Gymraeg os byddwn yn derbyn unrhyw ohebiaeth.</p> <p>Rydym yn rheolaidd yn annog pobl i ysgrifennu atom yn Gymraeg drwy ein llythyrau, gwefan a gohebiaeth e-bost</p>
2	Cyflenwi gwasanaet hau	<p>Pan fyddwch yn gohebu gydag unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid i chi ofyn i A os ydy A yn dymuno derbyn gohebiaeth gennych chi yn Gymraeg ac os ydy A yn ymateb i ddweud bod A yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg rhaid i chi -</p> <p>(a) cadw cofnod o ddymuniad A,</p> <p>(b) gohebu gydag A yn Gymraeg pan yn gohebu</p>	<p>Mae gennym eiriad safonol ar gael sydd yn hygyrch ar gyfer defnydd holl staff swyddfa'r Bwrdd pan fyddan nhw'n gohebu gydag unigolion am y tro cyntaf.</p> <p>Rydym yn cadw cofnod yn ganolog o ddewisiadau iaith unigolion sydd ar gael i holl</p>

		gydag A o hynny ymlaen, a (c) anfon unrhyw ffurflenni mae A i'w cwblhau o hynny ymlaen yn Gymraeg.	staff swyddfa'r Bwrdd. Mae ein templed pennawd llythyr yn gofyn am ddewis iaith yr un sydd yn derbgyn y llythyr
3	Cyflenwi gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth wedi'i gyfeirio i un neu ragor o unigolion sydd yn aelodau or un cartref (e.e. rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid i chi ofyn iddyn nhw os ydyn nhw eisiau derbyn gohebiaeth gennych chi yn Gymraeg; ac os ydy- (a) holl unigolion yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, rhaid i chi gadw cofnod o'r dymuniad hwnnw a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan yn anfon gohebiaeth wedi'i gyfeirio at yr holl unigolion hynny; (b) un (ond nid pawb) o'r unigolion yn ymateb i ddweud ei bod hi/ef eisiau derbyn gohebiaeth yn Gymraeg rhaid i chi gadw cofnod o'r dymuniad hwnnw a darparu gohebiaeth Cymraeg o hynny ymlaen pan yn pan yn anfon gohebiaeth i'r holl unigolion hynny.	Fe 2 uchod

4	Cyflenwi gwasanaet hau	<p>Pan fyddwch chi'n anfon yr un ohebiaeth i nifer o bobl, rhaid i chi anfon fersiwn Cymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio gyda safon 4 ym mhob amgylchiadau, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ pan rydych yn anfon yr un ohebiaeth i nifer o bobl ac mae'r holl bobl yna wedi eich hysbysu nad ydyn nhw'n dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg; ▪ neu pan fyddwch chi'n anfon yr un ohebiaeth i nifer o bobl ac mae'r holl bobl hynny yn gweithredu mewn capasiti o gynrychioli: <ul style="list-style-type: none"> - Cyngor Iechyd Cymuned; neu - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sydd yn eich cyd-gynnal. 	<p>Er bod gennym drefniadau clir, rydym wedi nodi 2 achlysur yn hanner cyntaf y flwyddyn lle roedd negeseiuon e-bost wedi cael eu hafnion i sawl person ar unwaith yn Saesneg yn unig, er bod yr atodiadau yn ddwyieithog.</p> <p>Camgymeriad dynol oedd hyn ac rydym wedi atgoffa'r holl staff o'r gofynion.</p> <p>Ar wahân i hyn, ers hynny dydyn ni ddim wedi nodi unrhyw achlysur arall. Mae ein cyflwyniad o adolygiadau tîm chwarterol o'n harfer Cymraeg yn ein helpu i gynnal ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n trefniadau.</p> <p>Mae'n rhoi cyfle inni hefyd i nodi ac annog cyfleoedd i ddatblygu ein defnydd o'r Gymraeg ymhellach.</p>
---	------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

5	Cyflenwi gwasanaet hau	<p>Os nad ydych chi'n gwybod os ydy person yn dymuno derbyn gohebiaeth gennych chi yn Gymraeg, pan fyddwch chi'n gohebu gyda'r person hwnnw rhaid i chi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio gyda safon 5 ym mhob amgylchiadau, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Pan rydych chi'n gohebu gyda pherson sydd yn gweithredu mewn capasiti o gynrychioli: <ul style="list-style-type: none"> - Cyngor Iechyd Cymuned; neu - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sydd yn eich cyd-gynnal. 	<p>Fel arfer rydym yn cysylltu gyda person cyn gynted â phosibl i nodi a chofnodi eu dewis iaith.</p> <p>Lle na fu hyn yn bosibl, anfonir gohebiaeth dwyieithog.</p>
6	Cyflenwi gwasanaet hau	<p>Os ydych yn cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn gyfatebol Saesneg o ohebiaeth, rhaid i chi beidio trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft os ydy'r fersiwn Saesneg wedi'i lofnodi neu os darperir manylion cyswllt ar y fersiwn Saesneg yna rhaid trin y fersiwn Gymraeg yn yr un ffordd).</p>	<p>Mae'r holl dempledau wedi cael eu hadolygu. Mae'r holl dempledau yn trin y Gymraeg yr un fath.</p>
7	Cyflenwi gwasanaet hau	<p>Rhaid i chi ddatgan:</p> <p>(a) mewn gohebiaeth, ac</p> <p>(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sydd yn gwahodd pobl i ymateb i chi neu</p>	<p>Mae ein holl lythyrau a thempledau hysbysiadau yn darparu'r manylion yma, yn cynnwys e-bost, llythyrau a gwefannau.</p>

		<p>ohebu gyda chi eich bod yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio gyda safon 7 ym mhob amgylchiadau ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Mewn gohebiaeth a chyhoeddiadau a hysbysiadau i bersonau sydd yn gweithredu mewn capasiti o gynrychioli: <ul style="list-style-type: none"> - Cyngor Iechyd Cymuned; neu - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sydd yn eich cynnal. 	<p>Yn ystod y flwyddyn fe nodwyd nad oedd ein holl hysbysiadau, arolygon ac adroddiadau Saesneg yn gwahodd pobl i ohebu gyda ni yn datgan ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg (er eu bod wedi'u cynhyrchu yn ddwyieithog).</p> <p>Mae trefniadau wedi eu gwneud i ddiweddarau ein templedau safonol ac ychwanegu datganiad ychwanegol at gyhoeddiadau sydd eisoes yn bodoli, lle mae'n briodol.</p>
8	Cyflenwi gwasanaet hau	Pan mae person yn cysylltu gyda chi ar eich prif rif (neu rifau) ffôn, neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alw, rhaid i chi gyfarch y person yn Gymraeg.	Mae dyddiad gweithredu ar gyfer y safon hwn wedi osod ar 31/03/2021. Mae cais wedi'i wneud i'r Comisiynydd Iaith i ymestyn y dyddiad hwn i 30/09/21 fel bod modd cyflwyno'r system teleffoni integredig newydd
9	Cyflenwi gwasanaet hau	Pan mae person yn cysylltu gyda chi ar eich prif rif (neu rifau) ffôn, neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alw, rhaid i chi	Mae dyddiad gweithredu ar gyfer y safon hwn wedi osod ar 31/03/2021. Mae cais wedi'i wneud i'r Comisiynydd Iaith i

		hysbysu'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.	ymestyn y dyddiad hwn i 30/09/21 fel bod modd cyflwyno'r system teleffoni integredig newydd
10	Cyflenwi gwasanaeth hau	Pan mae person yn cysylltu gyda chi ar eich prif rif (neu rifau) ffôn, neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alw, rhaid i chi ddelio gyda'r alwad yn Gymraeg os mai dyna ydy dymuniad y person hyd nes: (a) Mae'n angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o'r staff sydd ddim yn siarad Cymraeg sydd yn gallu darparu gwasanaeth ar fater penodol; a (b) Does dim aelod o'r staff sydd yn siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.	Mae dyddiad gweithredu ar gyfer y safon hwn wedi osod ar 31/03/2021. Mae cais wedi'i wneud i'r Comisiynydd Iaith i ymestyn y dyddiad hwn i 30/09/21 fel bod modd cyflwyno'r system teleffoni integredig newydd
11	Cyflenwi gwasanaeth hau	Pan fyddwch chi'n hysbysebu rhifau ffôn, rhifau llinell gymorth neu rhifau canolfan alw, ni ddylech drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae dyddiad gweithredu ar gyfer y safon hwn wedi osod ar 31/03/2021. Mae cais wedi'i wneud i'r Comisiynydd Iaith i ymestyn y dyddiad hwn i 30/09/21 fel bod modd cyflwyno'r system teleffoni integredig newydd
12	Cyflenwi gwasanaeth hau	Os ydych yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif (neu rifau) ffôn, ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alw, rhaid i'r rhif ffôn ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg fod yr un fath ag ar	Mae dyddiad gweithredu ar gyfer y safon hwn wedi osod ar 31/03/2021. Mae cais wedi'i wneud i'r Comisiynydd Iaith i ymestyn y dyddiad hwn i 30/09/21 fel bod

		gyfer y gwasaneth Saesneg cyfatebol.	modd cyflwyno'r system teleffoni integredig newydd
13	Cyflenwi gwasanaet hau	Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau llinell gymorh neu rifau canolfan alw, rhaid i chi ddatgan (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.	Mae dyddiad gweithredu ar gyfer y safon hwn wedi osod ar 31/03/2021. Mae cais wedi'i wneud i'r Comisiynydd Iaith i ymestyn y dyddiad hwn i 30/09/21 fel bod modd cyflwyno'r system teleffoni integredig newydd
14	Cyflenwi gwasanaet hau	Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio gyda galwadau ffôn, rhaid i chi sicrhau nad ydy'r dangosyddion perfformiad yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.	Mae dyddiad gweithredu ar gyfer y safon hwn wedi osod ar 31/03/2021. Mae cais wedi'i wneud i'r Comisiynydd Iaith i ymestyn y dyddiad hwn i 30/09/21 fel bod modd cyflwyno'r system teleffoni integredig newydd
15	Cyflenwi gwasanaet hau	Rhaid i'ch gwasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ar eich prif ffôn hysbysu'r personau sydd yn galw, eu bod yn gallu gadael neges yn Gymraeg.	Mae dyddiad gweithredu ar gyfer y safon hwn wedi osod ar 31/03/2021. Mae cais wedi'i wneud i'r Comisiynydd Iaith i ymestyn y dyddiad hwn i 30/09/21 fel bod modd cyflwyno'r system teleffoni integredig newydd

16	Cyflenwi gwasanaeth hau	Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.	Mae dyddiad gweithredu ar gyfer y safon hwn wedi osod ar 31/03/2021. Mae cais wedi'i wneud i'r Comisiynydd Iaith i ymestyn y dyddiad hwn i 30/09/21 fel bod modd cyflwyno'r system teleffoni integredig newydd
17	Cyflenwi gwasanaeth hau	Os ydy person yn cysylltu gydag un o'ch adrannau ar rif ffôn uniongyrchol (yn cynnwys rhifau llinell uniongyrchol aelod o'r staff) a bod y person hwnnw yn dymuno derbyn gwasanaeth yn Gymraeg, rhaid i chi ddelio gyda'r alwad yn Gymraeg, hyd nes— (a) Mae'n angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o'r staff sydd ddim yn siarad Cymraeg sydd yn gallu darparu gwasanaeth ar fater penodol; a (b) Does dim aelod o'r staff sydd yn siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.	Mae dyddiad gweithredu ar gyfer y safon hwn wedi osod ar 31/03/2021. Mae cais wedi'i wneud i'r Comisiynydd Iaith i ymestyn y dyddiad hwn i 30/09/21 fel bod modd cyflwyno'r system teleffoni integredig newydd
18	Cyflenwi gwasanaeth hau	Pan mae person yn cysylltu gyda chi ar rif llinell uniongyrchol (boed ar rif llinell uniongyrchol yr adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o'r staff) rhaid i chi sicrhau, wrth gyfarch y person, nad ydy'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae dyddiad gweithredu ar gyfer y safon hwn wedi osod ar 31/03/2021. Mae cais wedi'i wneud i'r Comisiynydd Iaith i ymestyn y dyddiad hwn i 30/09/21 fel bod modd cyflwyno'r system teleffoni integredig newydd

19	Cyflenwi gwasanaet hau	Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf rhaid i chi ofyn i A os ydy A eisiau derbyn galwadau ffôn gennych chi yn Gymraeg, ac os ydy A yn ymateb i ddweud bod A yn dymuno derbyn galwadau ffôn yn Gymraeg, rhaid i chi gadw cofnod o'r dymuniad hwnnw a chynnal galwadau ffôn i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	<p>Oherwydd y pandemig coronafeirws, mae ein holl staff wedi bod yn gweithio o gartref. Roedd rhagor o'n staff yn cysylltu gyda phobl am y tro cyntaf drwy'r ffôn. Ni allwn fod yn hyderus bod pawb wedi cydymffurfio bob tro gyda'r gofyniad hwn yn ystod misoedd cynnar y cyfnod clo.</p> <p>Wrth i bawb gyfarwyddo gyda dulliau newydd o weithio rydym wedi gwella ein cydymffurfiaeth a chadarnhaodd ein hunanasesiad chwarterol bod gan ein tîm fwy o ddealltwriaeth a hyder ein bod yn diwallu'r gofyniad yma, er nodwyd bod rhagor o staff nawr yn cynnal sgysiau drwy gyfarfodydd MS Teams yn hytrach hag ar y ffôn.</p>
20	Cyflenwi gwasanaet hau	Rhaid i unrhyw systemau ffôn awtomataidd sydd gennych ddarparu gwasanaeth awtomataidd cyflawn yn Gymraeg.	Does gennym ni ddim system ffôn awtomatig
21	Cyflenwi gwasanaet hau	<p>(a) Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i P a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw, ac</p> <p>(b) Os ydy P wedi eich hysbysu bod P yn dymuno</p>	<p>Oherwydd y pandemig coronafeirws mae ein holl staff yn gweithio o gartref. Mae mwy o'n staff yn cyfarfod pobl yn rhithiol drwy Skype neu Microsoft Teams.</p> <p>Ni allwn fod yn hyderus bod pawb yn diwallu'r gofyniad hwn ym misoedd cynnar y cyfnod clo.</p>

		<p>siarad Cymraeg yn y cyfarfod, rhaid i chi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg, neu os oes angen, trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio gyda safon 21 ym mhob amgylchiad ac eithrio:</p> <p>pan fyddwch yn gwahodd person i gyfarfod sydd yn gweithredu yn rhinwedd cynrychioli:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cyngor Iechyd Cymuned; neu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sydd yn eich cynnal 	<p>Wrth i bawb gyfarwyddo gyda dulliau newydd o weithio rydym wedi gwella ein cydymffurfiaeth a chadarnhaodd ein hunanasesiad chwarterol bod gan ein tîm fwy o ddealltwriaeth a hyder am ein harfer. Dydyn ni ddim eto yn gwbl hyderus ein bod yn diwallu'r gofyniad hwn yn gyson.</p> <p>Rydym yn cynhyrchu geiriad safonol i'w ddefnyddio mewn gwahoddiadau i gyfarfodydd ac fe fyddwn yn cadw hyn dan adolygiad.</p>
22	Cyflenwi gwasanaethau	<p>Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio gyda safon 22 ym mhob amgylchiad ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ pan fyddwch yn gwahodd personau i gyfarfod sydd yn gweithredu yn rhinwedd cynrychioli: <ul style="list-style-type: none"> - Cyngor Iechyd Cymuned; neu - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sydd yn eich cynnal. 	<p>Ar ddechrau'r pandemig coronafeirws newidiodd ein holl staff (bron dros nos) i gynnal cyfarfodydd yn unig drwy fideo-gynhadledd.</p> <p>Roedd hyn yn golygu nad oedd bob amser yn bosibl trefnu cyfieithu ar y pryd yn yr amserlen angenrheidiol i ddelio gyda materion brys.</p> <p>Wrth i bawb gyfarwyddo gyda'r dull newydd yma o weithio, ac wrth i frys trefniadau cyfarfodydd leihau, fe wnaethom nodi dewisiadau cyfieithu amgen.</p>

			Dydyn ni ddim wedi cael unrhyw berson yn cadarnhau eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a drefnwyd gennym ni.
22 A	Cyflenwi gwasanaethau	<p>Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio gyda safon 22A ym mhob amgylchiad ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ pan fyddwch yn gwahodd personau i gyfarfod sydd yn gweithredu yn rhinwedd cynrychioli: <ul style="list-style-type: none"> - Cyngor Iechyd Cymuned; neu - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sydd yn eich cynnal 	<p>Gweler 22 uchod</p> <p>Does neb wedi cadarnhau eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a drefnwyd gennym.</p>
22 CH	Cyflenwi gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r	<p>Gweler 22 uchod</p> <p>Does neb wedi cadarnhau eu bod yn dymuno</p>

		<p>Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio gyda safon 22CH ym mhob amgylchiad ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ pan fyddwch yn gwahodd personau i gyfarfod sydd yn gweithredu yn rhinwedd cynrychioli: <ul style="list-style-type: none"> - Cyngor Iechyd Cymuned; neu - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sydd yn eich cynnal. 	<p>defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a drefnwyd gennym</p>
26	Cyflenwi gwasanaethau	<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.</p>	<p>Does yr un o'n cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau arferol ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd (er bod presenoldeb y cyhoedd yn cael ei annog mewn capasiti arsylwi)</p> <p>Rydym yn adolygu ein trefniadau ar gyfer 2021-2022 i sicrhau ein bod yn gwneud cymaint ag y gallwn i annog a chroesau amgylchedd gynhwysol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg.</p> <p>Rydym yn gallu gwneud y trefniadau angenrheidiol i gefnogi cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd – gan ddefnyddi sgiliau</p>

			<p>Cymraeg staff ein Bwrdd (neu staff ac aelodau (ehangach CIC) i ddarparu gwasanaeth cyfieithu olynol.</p> <p>Ar y cyfan bu'r gallu i ddarparu cyfieithu ar y pryd yn fwy heriol oherwydd OCIVD-19 a'r newid i gynnal ein holl gyfarfodydd drwy Microsoft Teams (nad yw ar hyn o bryd yn galluogi cyfieithu ar y pryd) ond dywedodd swyddfa'r Comisiynydd Iaith bod disgwyl i hyn gael ei gywiro o fewn y 6 mis nesaf.</p>
27	Cyflenwi gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg	<p>Fel 26 uchod.</p> <p>Cynhyrchir a chyhoeddir agendau cyfarfodydd ein Bwrdd a phwyllgorau yn gyffredinol yn Gymraeg a Saesneg</p>
28	Cyflenwi gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi – (a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a (b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw	Fel 27 uchod

		(os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	
29	Cyflenwi gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg – (a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael	Fel 27 uchod.
30	Cyflenwi gwasanaethau	Os ydych chi'n cynhyrchu ac yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod rydych chi'n ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid i chi sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid i chi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	Drwy gydol y flwyddyn cynhaliwyd ein holl gyfarfodydd drwy fideo-gynhadledd. Rydym wedi cynhyrchu cefndir Bwrdd CICau yng Nghymru dwyieithog i'w ddefnyddio gan holl staff ac aelodau'r Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn does yr un aelod o'r cyhoedd wedi mynychu ein cyfarfodydd Bwrdd na chyfarfodydd. Fel ein bod yn gynyddol ddangos amgylchedd sydd yn annog ac yn gynhwysol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg rydym yn adolygu ein trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth ar sgrin drwy fideo-gynhadledd e.e. cyflwyniadau.

31	Cyflenwi gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoedduswydd i'r digwyddiad)	Dydyn ni ddim wedi trefnu digwyddiad cyhoeddus hyd yn hyn eleni, er bod gennym systemau a threfniadau pe byddem yn gwneud hynny.
32	Cyflenwi gwasanaethau	<p>Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynnigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 32 ymhob amgylchiad, ac eithrio mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynnigir yn y digwyddiad.</p> <p>Mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynnigir yn y digwyddiad, rhaid i chi gydymffurfio ym mhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Lle mae'n angenrheidiol i gynrychiolydd nad yw'n siarad Cymraeg i ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a 	Dydyn ni ddim wedi trefnu digwyddiad cyhoeddus hyd yn hyn eleni, er bod gennym systemau a threfniadau pe byddem yn gwneud hynny

		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Lle nad oes cynrycholydd Cymraeg ei iaith ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. 	
33	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu hysbysebu a gynhyrchwch gael ei gynhyrchu yn Gymraeg, ac os ydych yn cynhyrchu deunydd yn Gymraeg a Saesneg, ni ddylech drin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol nag yr ydych yn trin y fersiwn Saesneg.	Mae ein holl ddeunyddiau sydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i waith y Bwrdd neu CICau yn diwallu'r safon yma
34	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Mae ein hysbysiadau newydd yn berthynol i COVID1-9 wedi eu cynhyrchu yn ddwyieithog. Mae'r holl ddeunyddiau eraill hefyd yn diwallu'r gofyniad yma.
36	Cyflenwi Gwasanaethau	Os ydych yn cynhyrchu ffurflen sydd i'w chwblhau gan unigolyn, rhaid ei chynhyrchu yn Gymraeg.	Mae ein holl ffurflenni i'w cwblhau gan unigolion wedi'u cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg
37	Cyflenwi Gwasanaethau	Os ydych yn cynhyrchu dogfen (ond nid ffurflen) sydd ar gael i un neu ragor o unigolion, rhaid i chi ei chyhoeddi yn Gymraeg - <ul style="list-style-type: none"> a) Os ydy testun pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei chynhyrchu yn Gymraeg, b) Os ydy'r gynulleidfa ddisgwyliedig, a'u profiadau, yn awgrymu y dylid cynhyrchu'r ddogfen yn Gymraeg. 	Mae'r holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer unigolion wedi'u cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg

38	Cyflenwi Gwasanae thau	<p>Os ydych yn cynhyrchu dogfen (ond nid ffurflen) sydd ar gael i un neu ragor o unigolion, rhaid i chi ei chyhoeddi yn Gymraeg -</p> <p>a) Os ydy testun pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei chynhyrchu yn Gymraeg,</p> <p>b) Os ydy'r gynulleidfa ddisgwyliedig, a'u profiadau, yn awgrymu y dylid cynhyrchu'r ddogfen yn Gymraeg.</p>	<p>Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom nodi nad oedd ein holl arolygon a dogfennau fersiwn Saesneg yn datgan bod dogfen neu ffurflen ar gael yn Gymraeg (er bod pob un yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog). Rydym bellach wedi gwneud trefniadau i ychwanegu datganiad ychwanegol yn ein holl fersiynau Saesneg.</p>
39	Cyflenwi Gwasanae thau	<p>Rhaid ichi sicrhau –</p> <p>(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,</p> <p>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac</p> <p>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.</p>	<p>Rydym wedi profi hyn mewn perthynas â'n gwefan Bwrdd cyfredol.</p> <p>Mae ein gwefan Bwrdd CICau yng Nghymru wrthi'n cael ei hadeiladu ac fe'i cynhyrchir i gydymffurfio gyda'r safon yma.</p> <p>Rydym wedi comisiynu archwiliad annibynnol o'r wefan newydd ac fe fydd yn cynnwys gwiriadau o'n cydymffurfiaeth gyda'r safon yma fel rhan o'r archwiliad.</p>
42	Cyflenwi Gwasanae thau	<p>Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.</p>	<p>Fel 39 uchod</p>

43	Cyflenwi Gwasanae thau	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.	Fel 39 uchod
44	Cyflenwi Gwasanae thau	Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.	Mae ein cymhwysiad arolwg SurveyMe penodol yn gweithio yn llawn yn Gymraeg
45	Cyflenwi Gwasanae thau	<p>Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio gyda safon 45 yn yr amgylchiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar eich cyfrifon corfforaethol ac adrannol. 	Mae ein holl negeseuon cyfryngau cymdeithasol ar twitter a Facebook yn gwbl ddwyieithog
46	Cyflenwi Gwasanae thau	Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).	Dydyn ni ddim wedi cael unrhyw gysylltiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn, ond mae gennym systemau a phrosesau i'n galluogi i ateb yn Gymraeg lle mae angen

47	Cyflenwi Gwasanae thau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	Yn yr ardaloedd hynny o'r adeilad a reolwn, rydym wedi codi arwyddion newydd mewn perthynas â COVID-19 mewn modd sydd yn cydymffurfio gyda'r gofyniad yma. Mae ardaloedd cyhoeddus yn yr adeilad a reolir gan eraill. Does gennym ddim rheolaeth dros yr wybodaeth a arddangosir yn yr ardaloedd yma er ein bod wedi gofyn i bob arwyddion cyffredinol gael eu cynhyrchu yn ddwyieithog.
48	Cyflenwi Gwasanae thau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Fel 47 uchod
49	Cyflenwi Gwasanae thau	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	Mae cyfieithydd Cymraeg arall wedi gwirio cywirdeb ein holl arwyddion a hysbysiadau
57	Cyflenwi Gwasanae thau	Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg os ydy pwnc y contract yn awgrymu y dylid ei gynhyrchu yn Gymraeg, ac ni ddylech drin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg.	Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn gweithredu ar ein rhan mewn ymarferion tendro.

58	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gcontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin a) yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg a b) Rhaid ichi beidio â thrin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwy'r am benderfyniadau).	Gweler uchod
59	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.	Gweler uchod
60	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.	Mae ein gwefan wedi cael ei diweddarau i'w gwneud yn gliriach bod y gwasanaeth eiriolaeth cwynion a ddarperir gan CICau ar gael yn Gymraeg a Saesneg
61	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg	Fe fydd taflenni cyhoeddusrwydd cyfredol am swyddogaethau CICau yn parhau i gael eu dosbarthu (fel a gynghorir gan swyddfa'r Comisiynydd Iaith). Fe fydd rhediadau print newydd yn cynnwys testun ychwanegol i ddiwallu'r safon yma.

62	Cyflenwi Gwasanae thau	Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Yn ystod y flwyddyn rydym wedi adolygu dyluniad ein gwefan mewn cydweithrediad gyda'n darparyr TGCh NWIS yn ogystal â'n templedi adrodd – yn ddwyieithog.
63	Cyflewni gwasanaet hau	Os ydych chi'n cynnig cwrs addysg i un unigolyn neu ragor, rhaid i chi— (a) cynnal asesiad o'r angen i gynnig y cwrs hwnnw yn Gymraeg; (b) cynnig y cwrs hwnnw yn Gymraeg os oedd yr asesiad yn nodi bod angen cynnig y cwrs yn Gymraeg.	Dydyn ni ddim yn cynnig cyrsiau addysg i 'unigolion' Rydym yn cynnig cyrsiau pwrpasol a generig i staff ac aelodau'r Bwrdd a CICau yn Gymraeg ac yn Saesneg.
69	Llunio polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	
70	Llunio polisi	Os byddwch yn cynnig cwrs addysg i un neu ragor o unigolion, rhaid i chi— a) cynnal asesiad o'r angen i gynnig y cwrs hwnnw yn Gymraeg;	Fel 69 uchod.

		b) cynnig y cwrs hwnnw yn Gymraeg os ydy'r asesiad yn nodi bod angen cynnig y cwrs yn Gymraeg.	
71	Llunio polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Gweler uchod.
72	Llunio polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Dydyn nni ddim wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn, er ein bod wedi gwahodd adborth parhaus gan y cyhoedd am ein cynlluniau a'n hadorddiadau.
73	Llunio polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar	Fel 72 uchod.

		(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
74	Llunio polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Fel 72 uchod.
75	Llunio polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Yn ystod y flwyddyn rydym wedi adolygu a chryfhau ymhellach ein dulliau i sicrhau ein bod yn ystyried cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy gynnal asesiad effaith i lywio ein proses o wneud penderfyniadau.

76	Llunio polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Fel 75 uchod
77	Llunio polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na ddai'n cael effeithiau negyddol, neu effeithiau mwy negyddol, ar a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Fel 75 uchod
79	Llunio polisi	Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd. Rhaid i chi gydymffurfio gyda safon 79 ym mhob amgylchiad, ac eithrio: <ul style="list-style-type: none">▪ cyhoeddi'r polisi ar eich mewnrwyd.	Rydym wedi adolygu a chadarnhau ein polisi yn ystod yr wythnos. Rydym hefyd wedi gweithredu i gynyddu ein hyrwyddo a'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol, e.e. cyflwyno templedi dwyieithog, cyfieithu dogfennau canllaw, briffiadau cyfarfodydd ac arolygon i staff ac aelodau CICau etc.

82	Gweithredu	<p>Os byddwch yn cyhoeddi unrhyw un o'r canlynol, rhaid i chi eu cyhoeddi yn Gymraeg -</p> <ul style="list-style-type: none"> a) polisi yn berthynol i ymddygiad yn y gweithle; b) polisi yn berthynol i iechyd a llesiant yn y gweithle; c) polisi yn berthynol i gyflogau neu fuddiannau gweithle; d) polisi yn berthynol i reolaeth perfformiad; e) polisi yn berthynol i absenoldeb o'r gwaith; f) polisi yn berthynol i amodau gweithio; g) polisi yn berthynol i batrymau gwaith. 	<p>Cynhyrchir a chyhoeddir ein holl bolisiau yn berthynol i'r materion yma gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.</p> <p>Lle rydym wedi addasu neu greu polisiau ychwanegol i staff CICau neu i staff ac aelodau CICau cynhyrchir y rhain yn ddwyieithog.</p>
83	Gweithredu	<p>Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff -</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno. 	<p>Mae ein staff yn destun polisiau a gweithdrefnau gweithlu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cynnwys y rhai'n berthynol i gwynion.</p> <p>Gall ein staff hefyd fod yn cymryd rhan mewn cwynion drwy ein Gweithdrefn Cwynion mudiad CIC. Mae'r weithdrefn yma yn ei gwneud yn amlwg hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.</p> <p>Hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi delio gydag un gwyn o'r fath, ac fe'i</p>

			trafodwyd yn unol â'r gofyniad yma.
84	Gweithredu	Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi – a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	Hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi delio gydag un gwyn o'r fath, ac fe'i trafodwyd yn unol â'r gofyniad yma.
85	Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff (A) beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chwyn a wneir gan A, neu mewn perthynas â chwyn a wneir am A, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw A – (a) wedi gwneud y gwyn yn Gymraeg, (b) wedi ymateb yn Gymraeg i gwyn amdano ef, (c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gwyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gwyn.	Hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi delio gydag un cwyn o'r fath. Ni ofynnwyd am y dewis i ddefnyddio'r Gymraeg.

86	Gweithredu	<p>Rhaid ichi –</p> <p>(a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a</p> <p>(b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.</p>	<p>Mae ein holl staff yn destun polisïau a gweithdrefnau gweithlu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, yn cynnwys y rhai'n berthynol i gamau disgyblu.</p> <p>Ni chafwyd unrhyw weithdrefnau disgyblu yn ystod y flwyddyn.</p>
87	Gweithredu	<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod gydag aelod o staff ynghylch mater disgyblu sydd yn berthynol i'w ymddygiad, rhaid i chi -</p> <p>(a) Cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, darparu gwasanaeth cyfieithu o Gymraeg i Saesneg i'r diben hwnnw; ac</p> <p>(b) Os ydy'r aelod o staff yn dymuno cynnal y cyfarfod y Gymraeg, neu os oes angen gyda chymorth cyfieithu ar y pryd neu olynol o Gymraeg i Saesneg.</p>	<p>Ni chafwyd unrhyw weithdrefnau disgyblu yn ystod y flwyddyn.</p>
88	Gweithredu	<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff (A) beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw A –</p> <p>(a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,</p> <p>(b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu</p> <p>(c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.</p>	<p>Ni chafwyd unrhyw weithdrefnau disgyblu yn ystod y flwyddyn</p>

89	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).	
97	Gweithredu	<p>Rhaid i chi ddarparu cyfleoedd hyfforddi yn Gymraeg yn y meysydd canlynol, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg -</p> <ul style="list-style-type: none"> a) recriwtio a chyfweld; b) rheoli perfformiad; c) gweithdrefnau cwynion a disgyblu; d) anwytho; e) delio gyda'r cyhoedd; a f) iechyd a diogelwch. 	<p>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys sydd yn gyfrifol am ddatblygu cyfleoedd hyfforddi i staff yn y meysydd a nodir yma ac eithrio anwytho a delio gyda'r cyhoedd. Mae'n gweithio fel rhan o ddull Cymru gyfan i ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd yma – dydyn nhw ddim ar gael ar hyn o bryd.</p> <p>Mae swyddfa'r Bwrdd wedi trefnu hyfforddiant allanol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - i staff ar drafod sefyllfaoedd anodd gydag aelodau'r cyhoedd - i aelodau drwy raglan ddatblygu 2 ddiwrnod <p>Cynnigir y rhain yn Gymraeg i'r rhai sydd yn dymuno hynny. Hyd yn hyn does neb wedi dewis dysgu yn Gymraeg</p>

98	Gweithredu	<p>Rhaid i chi ddarparu cyfleoedd hyfforddi yn Gymraeg ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn -</p> <p>(a) cyfarfodydd; (b) cyfweiliadau; a (c) gweithdrefnau cwynion a disgyblu.</p>	<p>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys sydd yn gyfrifol am ddatblygu hyfforddiant yn y meysydd yma. Mae'n gweithio fel rhan o ddull GIG Cymru gyfan. Rydym yn aros am ddiweddariad gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ar y mater yma.</p> <p>Yn y cyfamser mae swyddfa'r Bwrdd wedi bod yn dosbarthu cyfleoedd dysgu Cymraeg yn rheolaidd i aelodau'r Bwrdd a staff swyddfa'r Bwrdd ac i CICau i'w dosbarthu i'w staff ac aelodau.</p> <p>Mae'r Bwrdd hefyd wedi cofrestru am y pecyn 'CymraegGwaith' **</p>
104	Gweithredu	<p>Rhaid i chi ddarparu -</p> <p>(a) geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith, a geiriad ar gyfer eich cyflogaion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio gyda safon 104, ac eithrio: Rhan (b) – darparu geiriad Cymraeg i fanylion</p>	

		contract eich cyflogai a hysbysu eraill nad ydyn nhw ar gael i ymateb i negeseuon e-bost.	
105	Gweithredu	Rhaid i chi - (a) darparu bathodyn i aelodau'r staff sydd yn gallu siarad Cymraeg iddyn nhw ei wisgo i gyfleu hynny; a (b) hyrwyddo gwisgo'r bathodyn yma i aelodau'r staff.	
111	Gweithredu	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg	Rydym wedi ychwanegu arwyddion newydd am COVID-19 yn swyddfa'r Bwrdd. Mae'r rhain yn ddwyieithog ac mae'r fersiynau Cymraeg wedi eu gosod mewn lleoliad lle maen nhw'n debygol o gael eu darllen gyntaf
112	Gweithredu	Pan fyddwch chi - (a) yn gosod arwydd Newydd yn yn adenwyddu arwydd yn eich gweithle (yn cynnwys arwyddion dros dro); neu (b) yn cyhoeddi neu arddangos hysbysiad yn eich gweithle;	Rydym wedi ychwanegu arwyddion newydd am COVID-19 yn swyddfa'r Bwrdd. Mae'r rhain yn ddwyieithog ac mae'r fersiynau Cymraeg wedi eu gosod mewn lleoliad lle maen nhw'n debygol o gael eu darllen gyntaf.

		sydd yn cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg a Saenseg, rhaid gosod y testun Cymraeg fel ei bod yn debygol y caiff ei ddarllen gyntaf.	
113	Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	Mae'r arwyddion newydd rydym wedi eu hychwanegu am COVID-19 wedi eu gwirio i sicrhau eu bod yn gywir.
115	Cadw cofnodion	Rhaid i chi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o'r nifer o gwynion rydych y neu derbyn mewn perthynas â'ch cydymffurfiaeth gyda'r safonau.	Ni fu unrhyw gwynion hyd yn hyn eleni.
118	Atodol	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael ar eich gwefan, .	Mae gennym ddatganiad a dolen i wefan y Comisiynydd Iaith yn dangos hysbysiad cydymffurfiad swyddfa'r Bwrdd. Oherwydd ymosodiad seiber ar wefan swyddfa'r Comisiynydd Iaith ym mis Rhagfyr 2020, doedd y ddolen o wefan y Bwrdd i wefan y Comisiynydd ddim yn gweithio ac felly doedd dim mynediad i'r hysbysiad cydymffurfio. Rydym bellach wedi cyhoeddi'r hysbysiad cydymffurfio yn uniongyrchol ar y wefan yn ogystal â darparu dolen i hafan gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Iaith.

119	Atodol	<p>(a) Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer (i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,, a (b) cyhoeddi dogfen sydd yn cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan.</p>	<p>Fe wnaqethom adolygu'r weithdrefn yn ystod y flwyddyn.</p>
120	Atodol	<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth ganlynol (lle mae'n berthnasol i'r graddau rydych chi dan ddyletswydd i gydymffurfio gyda'r safonau y cyfeiriwyd atynt)—</p> <p>(a) Y nifer o gwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn dan sylw oedd yn berthynol i gydymffurfiaeth gyda'r safonau yr oeddech dan ddyletswydd i gydymffurfio (ar sail y cofnodion rydych wedi eu cadw yn unol â safon 115));</p> <p>(b) y nifer o gyflogai sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (ar sail y cofnodion rydych wedi eu cadw yn unol â safon 116);</p> <p>(c) y nifer (ar sail y cofnodion rydych wedi eu cadw yn unol â safon 117) o'r swyddi newydd a</p>	<p>Cyhoeddwyd ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2019-2020 ar ein gwefan yn unol gyda'r gofynion yma.</p>

		<p>gwag rydych wedi eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn oedd wedi eu categorio fel swyddi lle roedd —</p> <p>(i) Sgiliau Cymraeg yn hanfodol;</p> <p>(ii) Angen dysgu sgiliau Cymraeg ar benodiad i'r swydd;</p> <p>(iii) Sgiliau Cymraeg yn ddymunol; neu</p> <p>(iv) Dim angen sgiliau Cymraeg.</p> <p>(3) Rhaid i chi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol dim hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn berthynol iddi.</p> <p>(4) Rhaid i chi sicrhau bod copi o'ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan.</p>	
121	Atodol	<p>Rhaid i chi ddarparu unrhyw wybodaeth sydd yn berthynol i'ch cydymffurfiaeth gyda'r safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi neu'r safonau gweithredu yr ydych dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw, i'r Comisiynydd Iaith (os ywr Comisiynydd yn gofyn am hynny)</p> <p>.</p>	

Mae'r raddfa RAG yn berthynol i'n hunanasesiad tîm diweddaraf a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2021.

Offeryn hunanasesu'r iaith Gymraeg

	GWRANDO/SIARAD	DARLLEN/DEALL	YSGRIFENNU
LEFEL 0 DIM SGIL	<ul style="list-style-type: none"> • Dim gallu 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim gallu 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim gallu
LEFEL 1 MYNEDIAD	<p>Rydw i'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ynganu geiriau, enwau lleoedd, enwau adrannau etc yn Gymraeg. • Cyfarch a deall cyfarchiad. • Defnyddio geiriau ac ymadroddion bob dydd e.e. diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi etc. • Deall/trosglwyddo ceisiadau geiriol syml o fath cyffredin/cyfarwydd/rhagweladwy gan ddefnyddio iaith syml e.e. 'Ga'i siarad gyda...' • Datgan ceisiadau syml a dilyn i fyny gyda chwestiynau/ceisiadau ychwanegol mewn dull cyfyngedig 	<p>Ryw i'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall geiriau a brawddegau allweddol ar faterion cyfarwydd/rhagweladwy yn berthynol i fy maes swydd fy hun e.e. ar arwyddion, mewn llythyrau. 	<p>Rydw i'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llenwi ffurflenni syml, nodi gwybodaeth syml e.e. dyddiad a lleoliad cyfarfod, cyfeiriad Cymraeg etc.

<p>LEFEL 2 SYLFAEN</p>	<p>Rydw i'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall hanfod sgysiau Cymraeg yn y gwaith • Ymateb i geisiadau syml yn berthynol i'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol • Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml • Mynegi barn mewn dull cyfyngedig cyn belled â bod y pwnc yn gyfarwydd • Deall cyfarwyddiadau pan ddefnyddir iaith syml 	<p>Rydw i'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall gwybodaeth ffeithiol, cyffredin a hanfod gwybodaeth sydd ddim yn gyffredin ar faterion cyfarwydd yn berthynol i fy maes gwaith fy hun e.e. mewn llythyrau, taflenni safonol etc. 	<p>Rydw i'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu nodiadau/negeseuon byr syml ar amrediad cyfyngedig o bynciau rhagweladwy yn berthynol i fy mhrofiadau personol fy hun
<p>LEFEL 3 CANOLRADD</p>	<p>Rydw i'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall llawer o'r hyn a ddywedir mewn swyddfa, cyfarfod etc. • Cynnal sgwrs syml ar bwnc yn berthynol i'r gwaith ond angen efallai troi i'r Saesneg i drafod/adrodd ar wybodaeth gymhleth neu dechnegol • Ateb cwestiynau rhagweladwy neu ffeithiol • Cymryd a throsglwyddo rhan fwyaf o negeseuon sydd yn debygol o fod angen sylw arferol • Cynnig cyngor ar faterion syml yn berthynol i'r gwaith 	<p>Rydw i'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sganio testun ar gyfer gwybodaeth berthnasol • Deall amrediad eithaf o ohebiaeth, llenyddiaeth ffeithiol etc arferol ac annarferol yn berthynol i'r gwaith pan ddefnyddir iaith safonol. 	<p>Rydw i'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu llythyr manwl/disgrifiadol yn berthynol i fy maes gwaith fy hun ond bydd angen i siaradwr Cymraeg fwrw golwg drosto. • Gwneud nodiadau rhesymol gywir tra mae rhywun yn siarad

<p>LEFEL 4 uwch</p>	<p>Rydw i'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal sgwrs yn berthynol i'r gwaith neu rhoi cyflwyniad gyda graddfa dda o ruglder ac amrediad o fynegiant ond efallai bydd angen troi i'r Saesneg i ateb cwestiynau heb eu rhagweld neu esbonio gwybodaeth gymhleth neu dechnegol • Cyfrannu'n effeithiol i gyfarfodydd a seminarau o fewn fy maes gwaith fy hun • Dadlau o blaid/yn erbyn achos 	<p>Rydw i'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darllen a deall gwybodaeth yn eithaf cyflym cyn belled nad oes geirfa annarferol yn cael ei ddefnyddio a dim gwybodaeth neilltuol o gymhleth neu dechnegol 	<p>Rydw i'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Paratoi llythyrau ffurfiol o nifer o fathau cyfarwydd fel ymholiad, cwyn, a chais • Cymryd nodiadau rhesymol gywir mewn cyfarfodydd neu arddweud syml • Ysgrifennu adroddiad/dogfen yn berthynol i fy maes gwaith fy hun, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg fwrw golwg drosto
<p>LEFEL 5 RHUGLDER</p>	<p>Rydw in gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynghori ar/siarad am faterion arferol, annarferol, cymhleth, dadleuol neu sensitif yn berthynol i fy mhrofiadau fy hun • Rhoi cyflwyniad/arddangosfa • Delio'n hyderus gyda chwestiynau gelyniaethus neu anrhagweladwy • Cynnal trafodaethau gan ddefnyddio termau cymhleth/technegol • rhoi cyfweiliadau i'r cyfryngau 	<p>Rydw i'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall syniadau cymhleth a gwybodaeth a fynegir mewn iaith gymhleth neu arbenigol mewn dogfennau, adroddiadau, gohebiaeth ac erthyglau, etc. 	<p>Rydw i'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu llythyrau ar unrhyw bwnc • Ysgrifennu nodiadau llawn/cywir o gyfarfodydd tra'n dilyn trafodaethau a chymryd rhan ynddyn nhw • Ysgrifennu adroddiadau/dogfennau yn hyderus ond efallai bydd angen i rhywun fwrw golwg drsotyn nhw am fân gamgymeriadau sillafu neu ramadeg